YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

Rhif 5] MAI, 1922. [Pris 3c.

.. CYNHWYSIAD. ..

AR ADEN FFYDD.

ODDIAR Y TWR.

TELYNOR BACH Y GYMANFA.

GWRANDO UNDODWR.

BRASLUNIAU O WERSI.

ATGOFION AM TALGARREG.

MARWGOFION.

MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 4s. y flwyddyn. Dantonir 6 copi ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEW Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

CHANNING HOUSE SCHOOL.

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Boarding and Day School for Girls.

Healthy situation at top of Highgate Hill. Large Grounds. Work on Mode Public School Lines. Preparation for London University Matriculation.

Apply for Boarding or Day Prospectus to—

Miss ALICE HAIGH, M.A., Head Mistre

AUTUMN TERM begins SEPT. 19th.

THE STAFF.

Head Mistress—

Miss ALICE HAIGH, M.A. (Manchester).

Resident Mistresses—

Miss A. M. DANIEL, B.A. (Lond.), Honours in History; Teachers' Diplon
Miss H. K. FRY, B.A. (Lond.), Honours in French.
Miss C. HARKER (Girton), Natural Science Tripos.
Miss M. JAMES, Higher Froebel Certificate.
Miss C. JEPSON, L.R.A.M., A.R.C.M. Miss F. JONES, B.Sc. (Lond
Miss B. MACLAREN, B.A. (Lond.), Honours in Classics.
Miss A. SUTHERLAND, B.A. (University of Wales), Honours in English
Miss M. TENCH, Bedford Physical Training College.
Miss E. L. WILLIAMS, B.A. (Manchester), Honours in History, Certificate Social Science, London School of Economics.

Non-Resident Mistresses.

Miss A. F. BRETTELL (Elocution). Miss W. GOODING, L.R.A.M
Miss A. GOODWIN, Member of the R.D.S. Miss HARE (Dancing)
Miss M. HOPE, L.R.A.M., A.G.S.M.
Miss D. H. LETTS (Cantab), M.A. (T.C.D.).
Miss I. THOMPSON, L.R.A.M., A.R.A.M. (Singing).

Matron—Miss MAUD MORSON. *Under Matron*—Miss E. JACKS

Number of pupils, 137.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers & Provender Miller

Merchants, Wholesale Grocers, &

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1922. [CYF. XXII. RHIF 5.

AR ADEN FFYDD.

AROSWCH YN FY NGHARIAD.
(Continue ye in My love.)

8.8 8.6.
Tonau—"St. Fabian," New Hymnal, 188.
"Augus Dei," Bristol Tune Book, 595.

O! ANWELEDIG Dad o'r Nef,
Rho deimlo'th law pan godwyf lef,
Rho ffydd ym mhob ystorom gref,
I lynu wrthyt ti.

O dan dy ofal Nefol Naf
Drwy drygau'r byd yn ddiogel af,
Fel cangen y winwydden gwnaf
Ymlynu wrthyt ti

Yn mhell o dref yn flin a briw,
Yn alltud, ond dan fendith Duw,
Gorphwysfa fer ga'm enaid gwiw
Drwy lynu wrthyt ti.

Os unig, unig yw fy nhaith
Drwy lawer nos a rhwystrau maith,
Daw'th lais o bell mewn melus iaith,
"O glyna wrthyf fi."

Ac os rhaid byw mewn anial dir,
Ar ffydd a gobaith amser hir;
Mae'n ddigon dy addewid wir,
Os glynaf wrthyt ti.

A phan gaf fendith nef yn rhan,
A Duw fy nghraig i'm dal i'r lan,
Ni ddychryn mwy fy enaid gwan,
Ond glynaf wrthyt ti.

CHARLOTTE ELLIOT.
(*Cyf. J. Islan Jones*).

ODDIAR Y TWR.

YN o honiadau pleidwyr Datgysylltiad a Dadwaddoliad oedd—yr esgorai'r ysgariaeth ar fywyd newydd yn yr Eglwys. Ychydig o Eglwyswyr sydd heddyw na chydnabyddant gywirdeb yr honiad. Yn ystod yr amser er y daeth Deddf y Datgysylltiad i rym, bu'r awdurdodau Eglwysig wrthi'n brysur yn gosod eu tŷ mewn trefn; a chyda diddordeb y darllenais yn y papyrau, ychydig ddyddiau'n ol, fod eu llafur wedi ei gwblhau, a'i goroni â llwyddiant.

* * *

Fe'm harweiniwyd i gyfeirio at y mater uchod gan sylwadau'r Barnwr Sankey yn y Gynhadledd Eglwysig yn Llandrindod tua chanol y mis diweddaf, ar ol cwblhau o hono ei lafur mewn cysylltiad ag ad-drefniant yr Eglwys. Dyma sylwedd ei sylwadau: "Bu'r pum mlynedd diweddaf yn flynyddoedd o dywyllwch a blinder, ond dyma derfyn y bennod. Yr ydym wedi gosod ein cyllidau (*finances*) mewn trefn, ac yr ydym yn awr at ein rhyddid i ddechreu ein gwaith. Yn y rheng flaenaf y mae ein lle. Dywedir fod ein cyllidau yn gryf, ac y meddwn ffurf-lywodraeth werinol (*democratic*). Y mae gennym rywbeth cryfach ac uwch na hyn. Y mae gennym genadwri ddwyfol. Y mae arian yn bwysig; eithr ni achubwyd un Eglwys erioed gan arian. Y mae ffurf-lywodraeth dda yn beth dymunol; eithr ni achubwyd un dyn erioed gan lythyren y gyfraith. Caniatewch imi, yn fy ngeiriau olaf wrthych, i'ch atgofio mai Eglwys Crist yw'r Eglwys yng Nghymru. Gadewch inni wrando ar sisialiadau gwannaf ei lais. *Gwybod beth ewyllysia ef, ac ufuddhau i'r hyn orchymyna, yw'r un ffordd sicr i (sicrhau) iachawdwriaeth i'n gwlad ac i ni ein hunain.* Dyna'm gobaith a'm gweddi parthed dyfodol yr Eglwys yng Nghymru, oblegid dyna beth ddwg iddi heddwch yn y diwedd." Geiriau godidog yw'r uchod, a ddeuent, heb un amheuaeth, o galon un oedd ar dân gan gariad at ei Eglwys; ac nid rhyfedd i'r dorf wrandawent arno roddi iddo'r fath fanllef o gymeradwyaeth ar derfyn ei arawd. Os y wyneba'r Eglwys y dyfodol yn ysbryd y geiriau hyn, fe'i herys ddyfodol o ddefnyddioldeb a dylanwad mawr – yr hyn ddymunaf iddi o galon; a chredaf mai dyna ddymuniad yr oll o'm darllenwyr.

* * *

I glust y cul a'r rhagfarnllyd ei feddwl, efallai y swnia'r mynegiad hwn o ddymuniad da tuag at yr Eglwys oddiwrth un na chred yn ei hathrawiaethau dipyn yn hynod. Oddiar safbwynt athrawiaeth, mae'n wir, y mae safle'r Eglwys a'r eiddom ni bellter y pegynau y naill oddiwrth y llall. Eithr fe honna pobun o honom yr hawl i'r

enw "Eglwys Crist." Honna'r Eglwys ei bod yn Eglwys Crist—nid *yr unig* Eglwys i Grist bellach, fel y gwneir yn amlwg gan sylwadau'r Barnwr, ond Eglwys Crist: "*The Church in Wales is a Church of Christ,*" yw geiriau'r Barnwr; nid "*the Church of Christ.*" Fe honnwn ninnau'r un peth i'r Eglwysi Rhyddfrydig—eglwysi Crist ydynt—nid *unig* Eglwysi Crist, ond Eglwysi Crist er hynny. Daw'r gwahaniaeth i mewn yn y deffiniad o Eglwys Crist. Beth wna Eglwys yn Eglwys Crist? Athrawiaeth a ffyddlondeb i ysbryd Crist medd yr Eglwys; ffyddlondeb i ysbryd Crist yn unig, meddwn ninnau. Os y dewisa Eglwysi eraill bwysleisio athrawiaeth, boed felly. I ni yr unig amod yw ffyddlondeb i ysbryd Crist—amod Crist ei hun. Os yr olwg olaf sydd iawn, amlwg yw nad yw Eglwys Crist yn gyfyngedig i nac enwad na phlaid; y mae pob Eglwys ffyddlon i ysbryd Crist yn Eglwys Crist, gan nad beth yw'r athrawiaethau y cred ynddynt. Nid oes ynof un hoffter o athrawiaeth yr Eglwys; i mi, nid athrawiaeth Crist mo honi; ar y tu arall, nid oes gan yr Eglwyswr un hoffter o'r athrawiaeth Undodaidd; iddo ef, nid athrawiaeth Crist mo honi. Eithaf gwir y cân Iolo: "Dyma'r ffordd, medd un, i'r bywyd; ameu'n gadarn fydd y llall; ac er chwilio'n daer a diwyd, syrthiwn bawb i lawer gwall." Rhydd i bobun ei farn. Ysbryd Crist yw ysbryd anerchiad y Barnwr Sankey. Os yn yr ysbryd hwn y dechreua'r Eglwys ar ei gyrfa newydd, fe brawf ei hun yn fwy o allu er iachawdwriaeth nag erioed; a haedda ddymuniadau da pobun a gâr les a dyrchafiad y ddynoliaeth.

* * *

Un ymadrodd yn arawd y Barnwr dynnodd fy sylw yn arbennig yw hwn: "Gwybod beth ewyllysia ef (sef Crist), ac ufuddhau i'r hyn orchymyna, yw'r un ffordd sicr i iachawdwriaeth i'n gwlad ac i ni ein hunain." Nid oes neb, gan nad beth ei safle ddiwinyddol, na pheth ei gysylltiadau Eglwysig na ddywed "Amen" ar ol darllen o hono'r geiriau hyn. Dyna, yn ddiamheuol, y genadwri y rhaid i bob adran o'r Eglwys Gristionogol argraffu mewn llythyrennau breision ar eu baneri—y gwneud o'r hyn ewyllysia Crist, a'r ufuddhau i'r hyn orchymyna, fel unig ffordd iachawdwriaeth—i gymdeithas fel i'r unigolyn. Dau fan cyfarfod ardderchog yw hwn i Eglwysi cred, ac yr ydym, yn raddol, yn nesu ato.

* * *

Pan ar ddiweddu ysgrifennu'r llinellau olaf uchod, daeth y newydd am farwolaeth Mr. Llewelyn Williams, K.C. Nid newydd hollol annisgwyliadwy ydoedd; amlwg ydoedd oddiwrth yr hysbysiadau o ddydd i ddydd fod ei fywyd yn y glorian. Yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf (ychydig yn fwy, efallai), llanwodd Mr. Williams le amlwg iawn ym mywyd cenedl y Cymry—y genedl a garai mor fawr; a diau, pe celai fyw, y profai ei hun o wasanaeth mawr i'w genedl eto;

eithr machludodd ei haul yn ei amser gore. Daeth i enwogrwydd yn ei alwedigaeth fel bargyfreithiwr; eithr nid dyna'r unig gylch yr enwogodd ei hun ynddo; fel gwleidyddwr rhyddfrydig, fel llenor coeth, fel Eisteddfodwr pybyr, fel gwladgarwr brwdfrydig, yr oedd wedi ennill iddo'i hun safle uchel iawn. Fel ysgrifennwr Cymraeg meddai ddullwedd fyw, gref, lithrig, ddymunol iawn; peth anodd iawn fuasai cael ei rhagorach. I ni, fel crefyddwyr rhyddfrydig, daeth yn adnabyddus iawn yn ddiweddar, yn ogystal ag i gryn ffafr gennym, fel amddiffynnwr o Iolo Morgannwg rhag y cyhuddiadau o dwyll ddygwyd yn erbyn yr hen fardd. Nid efe oedd yr unig amddiffynwr o hono; eithr yr oedd ei brofiad fel cyfreithiwr yn ei wneud yn amddiffynwr cymwys ac effeithiol iawn o hono. A'r canlyniad o'i amddiffyniad yw—nad yw'r cyhuddwyr bellach, agos mor haerllug yn eu cyhuddiadau ag y buont ar ddechreu eu gyrfa o daflu baw ar gymeriad yr hen fardd o Dreffleming. Am hyn, heb son am ei wasanaethau eraill, enw a berchir gennym fydd enw Mr. Llewelyn Williams.

SYLWEDYDD.

TELYNOR BACH Y GYMANFA.

(Yr Aderyn bychan a ganodd yng Nghymanfa Ganu yr Undodiaid yn Aberaeron, Mai, 1921.)

Cor y llawr yn canu i'r nef
Ag unllef fawl o'r galon,
Am Gariad Duw a'i ryfedd râs,
A'i fythol ofal tirion;
Am holl fendithion mâd diri'—
Daioni Rhi i'r holl fyd;
Ac am feddiannu Dwyfol Hêdd—
Am bur Sancteiddiol Fywyd.

Ar dannau uwch daw nodau cain
Telynor bach o'r goedwig,
Ac eto'n uwch gwefreiddia'i fawl,
Ac O! 'r nefolaidd fiwsig;
A dyma'r odlau dyr y wawr
A'u nodau bywiol, peraidd,
A hon yw'r Gân o Fawl i'r Ior
A egyr ddôr y nefoedd!

Dihewyd. NANCE EVANS.

GWRANDO UNDODWR.

[Gan PEDROG].

Gobeithiwn nad ystyfnigrwydd i gyd a bair inni deimlo, erbyn hyn, yn ddigon eofn i wrando dysgawdwr o gredo gwahanol i'n heiddo ni'n mynegi ei farn ar bynciau crefydd. Teimlasom er's tro ddarfod i rhywbeth a brofasom ddryllio cas gwydr awdurdod y cynghorau dynol oedd am ein ffydd, a bod yn rhaid iddi fyw a thyfu'n yr awyr agored, i wyneb gaeaf yn gystal a haf, drycin yn gystal a heulwen. Ni allwn honni'n bod wedi deall fawr ar rai pethau ag y dadleua diwinyddion yn frwdfrydig yn eu cylch. Yn wir, un o'r cysuron pennaf a gawsom ydoedd darganfod, fel y tybiwn, nad ar bwys arholiad mewn diwinyddiaeth y bydd neb yn golledig nac yn gadwedig. Cyfrifwn hynny'n gysur oherwydd na feddwn fawr o allu i amgyffred agweddau uchanianol athrawiaethau crefydd, a bod y rhai a dybiant eu bod hwy'n eu deall mor wahanol a gwrthwynebol i'w gilydd yn eu syniadau. Teimla dyn syml mewn ambell drafodaeth ddiwinyddol ei fod, wrth geisio deall y gwahanol ddeffiniadau a gynhygir ar y gwirionedd, yn debig i ddafad wlanog a geisiai redeg rhwng *barbed-wire*. Ond mae'r fath beth a "*working faith*," neu "*practical creed*," ag y gall y meddwl cyffredin ei feddu. "Iesu, fab Dafydd," oedd yn ddigon i'r dyn dall gerllaw Jerico, ac fe weithiodd yn ardderchog â'r credo byr a syml hwnnw. Ac wedi'r angoro ffydd un yn y Crist, gall ddal llawer tymestl wedyn. Ysgytir ei long, mae'n wir; ond yn "reidio wrth ei hangor" y bydd. Ond yn mynd i ddywedyd yr oeddym ddarfod inni fentro i wrando dwy ddarlith gan—*Undodwr!* Euthom i'w gwrdd gan ddisgwyl y clywem ganddo ymgais at chwalu syniadau Trindodol am Gristionogaeth. Tybiem nad annaturiol fuasai hynny. Pan wrthwynebir cymaint ar eu gilydd gan sectau Trindodol, pa ryfedd os gwrthwynebid y Trindodwyr gan Undodwr? A gwyddem fod pob math ar syniadau'n cael eu cyhoeddi'n yr *Hibbert Journal*—i'r hwn y mae'r Prifathro L. P. Jacks yn olygydd. A thybiem fod ei destunau'n unioni at faterion diamheuol ddadleuol. Ei destun oedd *The Religious Perplexities of To-day*. Ymdriniai yn y ddarlith gyntaf ar ei berthynas â chrefydd yn gyffredinol; ac yn yr ail ar ei berthynas â Christionogaeth yn neilltuol, Ond mor fynych y siomir ein disgwyliadau. Felly fu'r tro hwn, ond ar yr ochr orau. Cawsom gan Dr. Jacks rhywbeth llawer gwell na thrafodaeth ddysgedig a chywrain ar syniadau diwinyddol sy'n gwahanu Cristionogion. Rhoes i ni draethiad clir, syml, aeddfed, difrif, a pharchedig ar rai o bynciau sylfaenol a hanfodol crefydd a Christionogaeth.

SIARAD YN BLAEN.

Wrth gwrs, cyfaddasodd Dr Jacks ei ddarlithoedd ar gyfer cynulleidfa o bobl gyffredin. Dywedodd ddarfod iddo ymgais at hynny. Yr un pryd, yr oedd yn trafod pynciau nad oedd bosibl iddo gyflwyno dim mwy na hwynt i gynhulliad o'r diwinyddion dysgedicaf. Diau y gallasai eu trafod mewn dull mwy ysgolheigaidd, ac mewn termau dieithr i'r annysgedig. Ond fe brofodd y gellid cyfleu'r gwirioneddau mwyaf pwysig mewn iaith ddealladwy i bawb, ac mewn arddull deniadol. Nid rhaid dywedyd fod ei iaith yn goeth, ei gyflead o'i faterion yn feistrolgar ac ymresymiadol, a disgleirdeb athrylith ar ei holl gyflawniadau. Ac eto, meddai'r peth rhyfedd, anneffiniadwy hwnnw a bair i un deimlo wrth wrando ambell

i lefarwr gwreiddiol fel petai'n gwybod y cyfan a ddywedid o'r blaen. Pe gofynnid i ni pa beth *newydd* a glywsom yn y ddwy ddarlith hyn, rhaid inni addef na fedrem ateb,—er y teimlem eu bod, mewn rhyw ystyr, yn newydd i gyd. Teimlem yn debyg i fel y gwnai Nebuchodonosor pan alwai Daniel ei freuddwyd yn ol i'w gof, gan ei ddeongli hefyd. Teimlem ninnau fel pe'n gwrando ar fath ar ddewin a fynegai'r hyn a fuasai'n freuddwyd inni o'r blaen, a'i fod yntau hefyd yn dehongli'r breuddwyd yn gystal a'i fynegi. Ac fe ymddangosai'r dehongliad mor naturiol â'r breuddwyd, a phobpeth yn glir—cyn belled ag yr âi ei draethiad ef. Nid ydym yn honni bod wedi cyflawn ddeall hyd yn oed y cyfan a ddywedodd, ac fe adawodd heb eu dywedyd lawer o bethau nad oedd gennym ddim i'w wneuthur gyda golwg arnynt ond dyfalu. Eto, meddai ryw gyfaredd a barai i bawb deimlo'u bod yn ei ddeall. O ran dim aneglur neu ddwfn-ddyrys a lefarai, ni ellid dywedyd ei fod yn ein harwain "dan y cwmwl" na "thrwy y môr." Rhodiai hyd briffordd lydan, wastad, a'r haul yn tywynnu arno. Ond rhyfedd ddarfod i ddyn mor ddysgedig allu osgoi unrhyw arwydd o'i fod yn hyddysg mewn mwy nag un iaith—Saesneg syml, ond coeth? Ni chafwyd ganddo ddim o'r pethau'r arferai'n Peter Mackensie ddireidus synnu ei wrandawyr â hwynt—*sine qua non*, *statu quo ante*, *tertium quid*, *summum bonum*. Ond i fod yn hollol fanwl, credwn i "*a priori*" lithro o'i enau *unwaith!*

Gwirionedd a Ffurf.

Nid oedd yn ein bryd i fanylu ar gynnwys y darlithiau crybwylledig,—fawr fwy nag adrodd yr argraffiadau cyffredinol a adawsant arnom wrth eu gwrando. Daw i'm cof sylwadau y diweddar "O.M." :—"Ni chollais ddim o gred fy mebyd, ni chollais ddim ohoni eto; y mae digon o newydd-deb bythol ynddi i mi dreulio fy mywyd i wel'd agweddau newydd-ion arni. Ond deallais y gall rhai o gredo arall feddu bywyd pur, gwneyd gwaith arwrol, a gweled Duw." Awgryma hyn fod hanfod crefydd, wedi'r cyfan, yn ddyfnach, ac oherwydd hynny'n ehangach na chredôau ffurf. Mynych y teimlir bod esbonwyr y "gwirionedd llythrennol" yn cloi eu crafangau'n dynn yng ngwddf y gwirionedd ysbrydol. A cheir hynny nid yn unig gan y rhai a safant dros y ffurfgredôau traddodiadol, eithr hefyd gan rai a'u gwrthwynebant; beiant y credôau am eu hesboniad llythrennol o'r Beibl, ac esboniant y Beibl eu hunain, i'w gondemnio, yng ngoleuni'r llythyren—a hynny yn ei athrawiaethau mwyaf ysbrydol, ac nid yn unig mewn materion hanesyddol. Ceir crafanc damcaniaeth yr athronydd mor dynn yng ngwddf y Beibl ag y bu crafanc y ffurfgredo mwyaf caeth i'r llythyren erioed. Credwn mai'r unig waredigaeth i feddwl dyn oddi wrth y gaethwasiaeth o'r naill ochr a'r llall fydd i'r bobl sy'n honni eu hawl i "ddarllen y Beibl drostynt eu hunain" ddefnyddio'u hawl, ac nid eu honni'n unig. Beth bynnag, ymddangosai i ni bod Dr. Jacks yn mynegi, ar y cyfan, athrawiaethau na allai'r un Trindodwr eu gwrthod. Yn wir, clywsom bethau mwy chwildroadol o lawer gan rai a dybid o fod yn Drindodwyr nag ydoedd ganddo ef. Ond dylem hysbysu na threuliodd fawr ddim o'i amser i drafod damcaniaethau diwynyddol fel y cyfryw, er y ceid ambell awgrym grymus ynglŷn â rhai ohonynt. Mynnai nad oedd a wnelo crefydd ei hun â llawer o'r awawsterau a gysylltid â hi. Nid oedd y damcaniaethau a'r defodau y ceid cymaint o frwydro'n eu cylch yn rhan ohoni hi ei hun. Yn amddiffyn eu tybiau, eu harferion, a'u sefydliadau eu hunain y bu diwinyddion a sectau fynychaf. Buont yn pledio eu gilydd yn lle ymuno'n erbyn y gelyn cyffredinol. Ac onid yw'n ffaith nad yw llawer o'r problemau a flina fwyaf ar grefyddwyr yn greadigaethau diwinyddol, ac nid yn codi o hanfod crefydd Crist?

Crefydd yn Creu Gwroniaid.

Ond addefai Dr. Jacks bod i grefydd ei hanawsterau hi ei hun, ac mai'r rhain oedd y mwyaf o'r cwbl. Yr hyn fu agosaf i beri syndod ynom ydoedd ei waith yn cyhoeddi her crefydd mor ddifloesgni'n wyneb y byd yn ei holl bechod a'i drueni. Clywsom lawer dro'n ol, gan rhyw "ddiwinyddiaeth newydd" yn y ffordd o anwybyddu sylweddoldeb (*reality*) pechod. Ac mae'r hyn a elwir yn *Chrtstian Science* yn dysgu'r un peth. Ond un o'r pethau mwyaf pendant a fynegodd y darlithiwr oedd nad oedd a wnelai ef ddim â'r fath syniad. Yn wir, aeth cyn belled a dywedyd na wyddai ef pa fodd y medrai neb gonest lai na chredu "*in the reality of evil*." Ni fynnem wthio i'r gair "*evil*" ystyr nas rhoddid iddo ganddo ef. Cof gennym ddarllen yng ngweithiau Theodore Parker sylwadau a fwriai gryn wawd ar y gair "*sin*"—fel y defnyddid ef gan Drindodwyr. Ond credai Dr. Jacks yn y "*reality of evil*." Ac nid yn oedfa'r Armagedon yr argyhoeddwyd ef o hynny: mynnai nad oedd problem y Rhyfel ond amlygiad o'r hen broblem sy'n y byd er pan y mae drygioni, ynfydrwydd, poen, a marwolaeth yn hanes dynolryw. Ni ffaglodd ei wawdiaeth allan yn llymach o gwbl nag wrth sôn am y modd y gosodid y gair "*modern*" ar hen, hen nwyddau—yn syniadau diwynyddol yn gystal a drygau moesol. Derbyniai'r cyflwr y mae dynoliaeth ynddo'n y byd fel y mae, ac yn eithaf ei ddirgelwch a'i wae, a hynny fel y cyflwr yn yr hwn y caiff crefydd ei chyfle i arddangos ei gallu uchaf. Gwnaeth ddefnydd da o'r ymadrodd, —"*Making the world fit for heroes to live in.*" Rhoddai ei lawn rym i ystyr cyffredin yr ymadrodd; ond daliai hefyd fod y byd bob amser—yn yr ystyr dyfnaf yn fyd i ddatblygu gwroniaid. Bwriai ymaith y syniad a fynnai gymryd byd o esmwythyd moethus, dibrofedigaeth, diboen a dianhawster fel prawf o fyd teilwng o Dduw. Tarawiadol oedd ei stori am y dyn a freuddwydiodd ei fod mewn byd oedd yn hollol esmwyth, yn gyfan wrth ei fodd, ac iddo gasglu mai'n y Nef yr ydoedd. Ond ymhen rhyw dri mis teimlodd fod y lle'n rhy unffurf a bywyd yn rhy undonog, a daeth i'r casgliad nad y Nef oedd yno! Pe'n dyfynnu o'r Beibl, buasai iddo eiriau pwrpasol mewn Salm: "Am nad oes gyfnewidiadau (*changes*) ynddynt, am hynny nid ofnant Dduw." Beth bynnag, dadleuai ef y cai'r neb a ddelid ynghanol cyfyngderau mwyaf bywyd ar y ddaear, os mynnai ei geisio â'i holl galon, fod rhyw Allu Cyfeillgar yn ei ymyl, ac yn barod i droi'r argyfwng blin yn fuddugoliaeth i oreu ei natur ar y salaf a berthyn iddo. Yngrym y Gallu hwnnw tyfai allan yn wron ysbrydol, a byddai'r fuddugoliaeth yn werth yr ymdrech a'r dioddef i gyd. Arweiniai ni nid rhag y trallod, ac nid o'i gwmpas, eithr trwy ei ganol.

Gogoniant y Crist.

Tybiem y ceid yn ymdriniaeth Dr. Jacks ar *Christianity in particular* rai pethau pendant o Undodol ar Berson Crist. Ond nid felly. Dywedai'n llym yn erbyn treulio cymaint o amser i geisio esbonio'r Crist a chyn lleied i geisio'i ddilyn ef —yn ei ddysgeidiaeth, ei fywyd, ac yn enwedig ei aberth. Awgrymai mai da pe gallai diwinyddion adael heibio'r gwaith o gywrain ddeffinio'r Crist, ceisio adnabyddiaeth ddyfnach a mwy profiadol ohono, ac ymroi i'w ddilyn. Prin y credwn y gall meddwl yr Eglwys yn gyffredinol adael heibio yr ateb i gwestiwn mawr y Gwaredwr ei Hun: "Beth a dybygwch chwi o Grist?" Nid ydym yn tybio bod Dr. Jacks yn wahanol i'r Undodwyr yn gyffredin yn ei syniadau am Berson Crist ac ystyr ei farwolaeth. Yn sôn yr ydym yn unig am y ddwy ddarlith a draddododd yn Lerpwl y dyddiau o'r blaen; a chyn belled ag yr âi y rheiny, yr oeddynt yn ogoneddus o Gristionogol. Nid prif ragoriaeth Crist oedd ei ddysgeidiaeth, eithr darfod iddo ymsymud ymhlith dyn-

ion yn sylweddoliad perffaith o'r ddysgeidiaeth honno; ac uchafnod ei gymeriad oedd ei farwolaeth hunan-aberthol. Trwy'r Groes y cafodd oruchafiaeth lwyr ar ei holl elynion. Os cadwodd yr Undodwr enwog bethau pwysig heb eu trafod, yr oedd yr hyn a ddywedodd am y Gwaredwr yn gymorth i gredu ynddo a'i addoli. Wedi darllen rhai pethau a ddysgir gan awduron a elwir yn Drindodwyr, a gwrando ar Dr. Jacks, rhaid inni addef i'n ffydd gael mwy o gymorth gan yr olaf. Ceid yma ddysgawdwr nad oedd yn cwiblo â geiriau amwys, ac nad oedd angen i neb ei groesholi; heb ynddo duedd o gwbl i siarad i lawr at ei wrandawyr; yn hollol glir oddi wrth arferion ac awyrgylch y *debating society* gwyrain a chyfrwys; yn ddigon mawrfrydig i ddywedyd fod gweld rhai o gred wahanol iddo ef yn gryfion a gonest yn eu ffyddlondeb i'w hargyhoeddiadau yn gymorth i'w ffydd yntau yn Nuw; ac â'i holl enaid yn ceisio dwyn yr ysbrydoedd oedd o'i flaen i feddiant o'r iachawdwriaeth a sicrheir trwy ddilyn Iesu Grist, "Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."

BRASLUNIAU O WERSI AR GREFYDD.

[Gan RICHARD A. ARMSTRONG, B.A.]

Gwersi Syml ar Grefydd i Blant o'r Deg i'r Pymtheg oed.

RHAN I.

(Parhad o Rhifyn Ebrill.)

GWERS IV.

Ail Adroddiad. — Careg, mesen, ci, plentyn.

Nid oes gan y plentyn ar y cyntaf ddim mwy o allu i symud, i wneud swn, i feddwl, teimlo, bod yn dda, na'r ci. Ond ynddynt oll, dysg lawer mwy, enilla geinder, amrywiaeth, eangder, &c

Di-fywyd, llysieuaidd, anifeilaidd, dynol.

Parhad. — Galwn yr hyn sydd drwm, ac yn meddu lliw neu ffurf, yn *Fater*, pa un a fydd *yn tŷ/u* neu na fydd. Mater yw careg, a dim arall. Mesen, derwen, mater yw a dim arall. Mae ci yn fater a rhywbeth arall. Felly plentyn.

Yr hyn sy'n meddwl, teimlo, a gallu bod yn dda, galwn ef yn *Yspryd.*

[Mae rhai pethau a'r sydd yn meddu bywyd anifeilaidd na allant feddwl, teimlo, neu fod yn dda, gymaint ag y gall ci. Tebyg iawn na allant feddwl na bod yn dda o gwbl, dim ond teimlo—er enghraifft, abwydyn. Dywedwn am bopeth all deimlo, hyd yn oed os na all feddwl neu fod yn dda, ei fod yn meddu *ymwybyddiaeth*, ei fod yn *ymwybodol;* y mae ymwybyddiaeth ci yn llawer uwch nag eiddo'r abwydyn, ac eiddo'r plentyn neu'r dyn yn uwch nag eiddo'r ci. Gall bodau dynol—rhai yn meddu bywyd dynol *—feddwl am eu meddwl eu hunain, a'u teimlad a'u bod yn dda.* Gelwir hynny yn *hunan-ymwybyddiaeth.* Peth tebyg yw nad oes gan y ci ddim hunan-ymwybyddiaeth ac nad yw yn perthyn i ddim is na bywyd dynol.]

Mae'r paragraff hwn rhwng cromfachau yn anodd Os gellir ei ddysgu yn eglur, bydd yn ddefnyddiol iawn ; os na, gwell ei adael heibio.

Pan mae Yspryd mor uchel a nerthol fel y gall fynd yn ei flaen yn hyn—yn meddwl, yn teimlo, a bod yn dda—heb y mater sydd gydag ef, heb y corff a elwir gennym yn enaid.

Nid ydym yn gwybod a oes gan gŵn ac anifeiliaid eraill enaid ai nad oes.

Credwn fod gan fodau dynol eneidiau.

Pan feddyliwn am hynny, nid y plentyn, nid y dyn ei hunan, yw'r mater sydd yn gwneud i fyny ei gorff. Nid yw ond yn *perthyn* iddynt. Ei *eiddo* yw yn debyg i'w wisg. Y plentyn, y dyn gwirioneddol ei hunan, yw yr *enaid*—yr hyn sydd yn meddwl, teimlo, yn gallu bod yn dda.

Pan ddywedaf 'Rwy'n oer,' atebai'r un peth imi ddweyd 'Mae 'nwylaw i'n oer,' neu 'Mae'm holl gorff i'n oer.' Pan ddywedaf 'Rwy'n gwaedu,' fyddai'n llawn cystal imi ddweyd 'Mae fy mys (fy nghoes) yn gwaedu.' Nid y fi sydd yn gwaedu, ond fy nghorff i. Pan ddywedaf 'Rwy'n meddwl mai dydd Mawrth yw,' ni wna'r tro imi ddwedyd 'Mae fy llaw (neu fy mhen) yn meddwl.' Y *fi* sydd yn meddwl. Fi yw fy enaid. Nid *fi* yw'r corff, ond *eiddo* fi.

Os cyll dyn ei allu i feddwl, dywedwn ''Dyw e ddim yna i gyd,' ond ni ddywedwn felly os cyll ei goes. Os gedy'r dyn i'w nwydau ei orchfygu, nes ymddangos ei fod wedi colli pob gallu i fod yn dda, 'Nid yw efe ei hunan,' ond ni ddwedwn felly os bydd yn unig wedi colli y gallu i symud neu i wneud swn. Y dyn *yw* yr enaid, peth sydd *ganddo* yw ei gorff.

Gwers V.

Ail Adroddiad.—Mater.—Careg a mesen, mater yn unig ydynt. Ci a phlentyn yn fater a rhywbeth arall.

Yspryd—[Graddau uwch ac is o ymwybyddiaeth Hunan-ymwybyddiaeth].

Enaid.—Yspryd yw a all fodoli ar wahan i fater. [Yspryd hunanfodol].

Mae *genym* gyrff ; ond eneidiau *ydym.*

Parhad.—Gall ci feddwl ychydig, a gall beri i ni wybod peth o'r hyn mae yn feddwl. Pan yn chwyrnu (yn siglo ei gwt, yn udo, &c.), gwyddom ei fod yn ddigllawn (deddwydd, annedwydd, &c.). Pan fyddwn yn rhoi ein meddwl ein hunain yn meddwl rhywun arall, gelwir hynny yn *hyspysu.* Gallwn ni hyspysu ein meddwl lawer gwell nag y gall y ci. Y ffordd fwyaf cyffredin yw drwy wneud swn â'r tafod a'r dannedd. Meddyliaf rywbeth, yna symudaf fy nhafod, dannedd, gwefusau, a pharant hwy i'r awyr gyffro mewn modd neillduol, ac yna fe dery yr awyr ar y drwm yn eich clust lawer iawn o weithiau mewn rhyw ffordd neillduol, ac yna fe glywch ryw seiniau neillduol, a phar y seiniau hynny i chwi feddwl y peth oeddwn i'n feddwl. Yr wyf *wedi rhoddi fy meddwl i chwi* (wedi hyspysu fy meddwl i chwi).

Mae ffyrdd eraill o roddi ein meddyliau i bobl eraill. I'r dyn byddar y mae iaith y bysedd. Mae iaith clust yn fwy defnyddiol na iaith llygad, am y gellir ei ddefnyddio yn y tywyllwch, neu pan na fydd y person yn edrych arnoch chwi. Mae iaith llygaid i bobl sy'n mhell — ysgrifen, argraff, pellebyr trydanol, &c. Iaith swn i rai fydd yn rhy bell i wel'd y gwefusau'n siarad—cloch, gong, magnel, telephon, &c. 'Hysbysebau' yw y rhai hyn oll i drosglwyddo meddyliau un dyn i feddiant dyn arall. (Rhaid i'r ysgolor ddweyd wrthych pa feddyliau). Mae angen *dysgu* braidd pob math o hyspysebu cyn y gellir eu deall. Mae dulliau eraill mor hawdd fel y gallwn eu deall heb hynny. Fe'u gwelir yn naturiol, yn reddfol, heb ddysgu — amnaid, pwyntiad, llefain, chwerthin, gwenu, &c.

Mae rhai mathau o hyspysebu a ddeallir hyd yn oed gan faban. Fe esyd gwên mam foddlonrwydd, teimlad o ddiogelwch ym meddwl y baban. Gall y plentyn ddarllen *cariad* yn llygaid mam. Mae'r plentyn yn crio yn nhywyllwch nos; gesyd y fam ei braich am dano, a gesyd deimlad o fodlonrwydd a diogelwch ynddo. Nid yw'r plentyn yn deall yn agos *yr oll* y mae'r edrychiad neu'r symudiad yn arwydd o honno, ond dealla ddigon i deimlo yn gysurus.

Mae pob math o hyspysebu yn rhoi meddwl i arall. Os roddaf *swllt* i arall, mae gennyf swllt yn llai fy hunan — collaf swllt. Os rhoddaf *oleu* i arall, mae gennyf lawn cymaint ar ol fy hunan—nid wyf yn colli dim. Mae rhoi meddwl i arall yn debyg i roi'r goleu, nid rhoi'r swllt. Os rhoddaf swllt i bob un o ugain o bobl, collaf bunt; os rhoddaf oleu i bob un o'r ugain, nid wyf yn colli dim goleu; os rhoddaf fy meddwl i bob un o'r ugain, nid wyf yn colli'r un meddwl.

Gwers VI.

Ail Adroddiad.—Gosod ein meddwl yn meddwl eraill, hyspysu. Gallwn ni hyspysu yn well na'r ci. Hyspysiad cwn.

Hyspysu a'r tafod a'r dannedd.

Iaith swn a iaith gweld i rai agos.

Iaith swn a iaith gweld i rai pell.

[Hyspysu celfyddydol, traddodiadol; naturiol, greddfol.]

Hyspysebu y fam a'r plentyn.

Rhoi meddwl yn debyg i roi goleu.

Parhad.—Mor bell yr ydym wedi son yn unig am y modd y gwnawn ni ein hunain hyspysu, neu am yr hyspysebu a wnei i ni gan greaduriaid is na ni (y ci, &c.), neu gan rai tebyg i ni ein hunain (bodau dynol): yn y man ni soniwn ni am hyspysebion a ddarbyniwn oddiwrth Fod uwchlaw i ni.

[Ond, sylwn yn gyntaf ar hyn: perthyn i'n eneidiau dri gallu—meddwl, teimlo, a bod yn dda. Yn awr, wrth *feddwl* dywedir ein bod yn arfer ein *deall*; wrth *fod yn dda* neu yn ddrwg, ein *ewyllys*. Mae gan yr enaid allu deallol, a gallu ewyllysiol (gallu moesol).

Cawn fod yr hyspysebion oddiwrth uwchlaw i ni ein hunain yn cael eu cyfeirio at bob un o'r galluoedd neu'r cyneddfau hyn o eiddo'r enaid.]

Mae'r paragraff uchod yn anodd, ac ni ddylai gael ei ddysgu ond yn unig i blant ellir ei wneud yn eglur iddynt ei ddeall, ac i gofio yn gywir y gwahaniaeth nodir allan a'r termau ddefnyddir. I'r cyfryw, fodd bynnag, fe brawf yn ddefnyddiol, gan y bydd yn rhoddi iddynt fanylrwydd mwy er deall y Gwersi sy'n canlyn.

[Hyspysebion o'r Ewyllys neu'r Gallu Moesol. Bydd yn gyfleus i gymeryd y rhai hyn yn gyntaf.]

Tybier fod clerc siop yn ddiweddar yn gadael, a bod pob un arall wedi gadael o'i flaen. Wrth fynd allan, mae'n gweld sofren mewn hollt yn y llawr. Mae yn dlawd iawn a bydd sofren o werth mawr iddo ef a'i deulu. Mae'n eithaf sicr oddiwrth y dwst oddiamgylch ei bod wedi bod yno hir amser, ac nad oedd yn bosibl i neb wybod pe cymerai ef, fel nad oes arno ddim rhith ofn cosp. Cydia ynddi yn awchus, ac ar y funud mae'n meddwl ei gadw. *Ond nid yw yn ei gadw. Paham?* Am i rywbeth ddod ato yn sydyn, yn glir, yn nerthol ac ofnadwy, rhywbeth yn dweyd with ei enaid, '*Paid.*'

Ni ddaeth y '*Paid*' hwnnw oddiwrtho; yr oedd efe a'i holl feddwl a'i fryd ar gadw y sofren. Yr oedd yn dod yn hollol groes i holl rediad ei feddwl, a'i deimlad a'i ewyllys. Rhaid ei fod yn llais rhyw Fod sy'n bresennol ac yn ei weld. Galwn y Bod hwnnw yn Dduw. Mae Duw wedi hyspysebu yn union a'i enaid.

Felly mae'n cymeryd i fyny y sofren yn ofalus, yn mynd at ei feistr, ac yn ei roddi i fyny hyd nes y deuir o hyd i'w iawn berchennog.

Mae yn mynd yn hollol groes i'w hunan les, a hynny oblegid y '*Paid.*'

Gyda phlant iau, fe ddylid rhoi enghreifftiau eraill o'r llais hwn—llais Duw; èr enghraifft, y stori am Theodore Parker yn cael ei atal i ladd y *tortoise.* Pan fydd y plentyn ar daro ei frawd bach, mae'r '*Paid*' yn swnio yn ei enaid, ac yntau yn dropio ei law. Pan ar edrych at yr ateb i *sum;* neu pan ar anufuddhau i'w fam, &c, &c. Bydder ofalus ar y cyntaf i gyfyngu'r sylw at lais fel *rhybudd*—yn atal yr ewyllys pan ar wneud trosedd.

Fel hyn mae llais Duw yn ein *rhybuddio* rhag gwneud drwg.

(I'w barhau.)

ATGOFION AM TALGARREG.

Mr. Golygydd.—Ar fy nghais, ysgrifennwyd yr atgofion a ganlyn gan Mr. Gwilym Samuel, P.C.T., Westbury. Bu yn Athro arnaf yn Nhalgarreg am beth amser, ac yr wyf yn ddyledus iddo am fwy nag addysg mewn pynciau cyffredin—cefais ysprydoliaeth ganddo i fyned yn y blaen. Os nad euthum ymlaen yn ddigon cyflym, nid arno ef y bu'r bai. Gaf fi ofyn ichwi gyhoeddi'r atgofion hyn. Mawr lwc i'm tadmaeth llenyddol—YR YMOFYNYDD—ac i chwithau, fy nghefnder o'r bedwaredd âch. —*Samuel.*

O'r braidd y tybiaf fod cronicl o hanes fy arosiad yn Nhalgarreg—cyfnod byr—1885—87—o werth neu o unrhyw fesur o ddiddordeb i ddarllenwyr YR YMOFYNYDD, ac eto od yn bosibl tynnu ychydig ddarluniau ar un o'i dudalenau feallai mai peth nid hollol anfuddiol fyddai i rai yn y cylch a allent roddi trem yn ol ar adeg sydd hwyrach yn bell yn y gorffenol.

Ymsefydlais yn Ysgol Talgarreg dan amgylchiadau pur gyffrous a chythryblus. Yr oedd un wedi ei apwyntio i'r swydd, ond oherwydd teimlad gwrthwynebol cryf bu raid gosod un arall—'temporary'—yn ei le. "Geddes" oedd enw y gwr hwnw. Heddyw mae'r enw hwn yn bur adnabyddus am y sonir am "Fwyell Geddes" bron yn mhob newyddiadur drwy'r wlad.

Gwaith go anhawdd oedd gan Geddes i gael yr ysgol i drefn a'i chadw felly, am fod yna ysbryd ac awyrgylch anffafriol yn ffynnu yn mysg rhieni, ac with reswm yn cael adlewyrchiad amlwg yn osgo a cherddediad a theimlad anfoddog y plant i eistedd mewn ufudd-dod i'r awdurdod anghydnaws.

Hefyd, gyda llaw, dilynai yr annwyl a'r parchus Owen Thomas, Cei Newydd, a anwylid gymaint a marwolaeth disyfyd yr hwn a ystyrid yn golled mor enfawr.

Cefais yr allwedd i'r ysgoldy o law Mr. Geddes, yr hwn oedd wedi dangos gryn allu a medrusrwydd yng ngwydd llu o anfanteision.

Dyn ieuanc, diniwed, dibrofiad, oeddwn ar y pryd, ond gosodais fy hun allan i ddeall yr ysgolorion a'u rhieni, ac mewn ychydig fisoedd wedi iddynt gael pob cyfleusdra i'm hadnabod a'm deall, yr oeddwn ar deleraau da a phawb; yr oedd pob ty a

fferm, melin a ffactri yn yr ardal yn agored i mi, a phawb yn barod i ymgomio, bydded fawr neu fach, cyfoethog neu dlawd, hen neu ieuanc, anghydffurfiwr neu gydffurfiwr, uniongred neu anuniongred, ymwelwyr a'r ardal yn frodorion a dieithriaid.

Dywedir hyn nid yn gymaint er canmol fy hun, ond fel arwydd o barch a diolch, i'r ardalwyr oll au eu hysbryd rhagorol a'u caredigrwydd diffael.

Mewn cysylltiad a'm "lodgings," syrthiodd y llinynau mewn lleoedd hyfryd, a chefais gartref clyd dan gronglwyd Owen Herbert, y Siop, a'i wraig garedig a medrus, amryddawn, bwyllog, a chyda mesur helaeth o synwyr cyffredin, gweledigaeth cryf anianyddol a meddyliol, barn addfed a chywir ar bynciau a phersonau ; ac yn ail iddynt oedd y plant annwyl yn hynod ymdrechgar i lanw cwpan fy nghysuron i'r ymylau. Ymbleserais lawer yn nghwmni y mab, Tomos Herbert, Saddler, yr hwn oedd o gynheddfau anarferol gryf, ond dipyn yn wahanol i mi yn ei reddf am "outdoor sport." Eto purion peth yw i ddynion o wahanol ddyheadau a thymeredd gyfarfod a'u gilydd weithiau mewn ymdrech dadl neu dreulio diwrnod ar ei hyd er hela ysgyfarnog dros gaeau a chlogwyni.

Yr oedd Tomos Herbert yn fedrus mewn llawer canghen, a dangosai naturioldeb fel prydydd a medrusrwydd fel "dentist," llwyddiannus fel heliwr, a hynod daclus yn holl ganghenau ei grefft. Dyn oedd hwn yn fwy na'i le, ag esiampl feallai o ddiffyg cyfleusderau addysg a dadblygiad yn ei febyd a'i ieuenctyd. Un go ddireidus oedd hefyd, ac un hynod hoff, fel y dywed y Sais, "o dynnu coes dyn." Canodd eiriau clodwiw i "Talgarreg" mewn penillion a ddanfonwyd i'r *Faner*, ac ymddangosasant mewn rhifyn o'r newyddiadur hwnw. Gosododd yr enw "Gwilym" fel awdwr y llinellau, a mawr yr helynt oedd yn yr ardal i wybod ai myfi oedd yr awdwr! Teimlad o sarugrwydd a'm meddiannodd ar y pryd, ond diflannodd yn o fuan, am y gwelwyd mae un o'i driciau oedd.

Gydag amser diflannodd pob ysbryd angharedig a maleisus, os oedd un felly, a chafodd Benjamin Owen James, Llanarth (y dewisedig i'r swydd), ysgol yng ngogledd Ceredigion ; gweithiodd hwn yn egniol mewn ieithoedd a cherddoriaeth, a'i wyneb ar y weinidogaeth, ond syrthiodd mewn byr amser yn ysglyfaeth i angau yn ddisyfyd tra yn y gerbydres rhwng Stafford a Shrewsbury, heb i'w lafur dirfawr ffrwythloni mewn cynhaeaf o ddefnyddioldeb i'w wlad a'i sir enedigol.

Er cadw rhyw drefn ar y sylwadau feallai mai purion peth fydd nodi rhywbeth yngylch y Bwrdd, y Pwyllgor Lleol, Ysgolfeistriaid y cylch, yr Ysgol, yr Eglwysi, yr ardal a'r ardalwyr.

Yr oedd Bwrdd Ysgol Llanarth yn un cryf, er fod ynddo elfennau cyferbyniol a gwrthryfelgar, ac yn hynod awyddus i gael y goreu er hyrwyddo a llwyddo dysgeidiaeth yn eu holl gylchoedd a gweithredoedd.

Yn y gadair oedd Mr. Morgan Evans, Dderwengam, ac oddeutu'r bwrdd eistedda Mr. Henry Tobit Evans, Noyadd ; Parch. W. J. Prytherch, Wern ; Mr. Lloyd, prif feistr Coleg Eglwysig Aberhonddu ; Mr. J. C. Jones, Siop ; Mr. J. M. Howell, Aberaeron, ynghyd ag ereill. Ymddiriedent yn y swyddogion apwyntiwyd, ac ni feddylient am ymyryd yn y mân bethau ; felly yr oedd olwynion yr holl drefniadaeth yn troi yn hwylus a rhwydd, ac ni osodwyd llyffetheiriau ar draed na chyffion ar arddyrnau eu swyddogion.

Y Pwyllgor Lleol. — Cefais y Pwyllgor Lleol yn dra parod i ymgynnull pan fyddai unrhyw fusnes i'w wneud, ac am y deallent yn go fuan nad oeddwn yn ddiofal a diochel i geisio gwario arian yn ddianghenrhaid, bodlon oeddent i gymeradwyo i'r Bwrdd unrhyw gais a wnawd er cael *apparatus* a fyddai o werth yn nhyb y meistr i gynorthwyo gwersi yn y testunau a

gymerid. Delai Mr. Dafydd Thomas o'r Fadfa, a Mr. John Williams o Lawrcwrt. Gyda llaw, un hynod ddemocrataidd oedd gwr Llawrcwrt. Pan ddechreuai gwas neu forwyn yn ei wasanaeth, hysbysai yn bur fuan iddynt mai John a Marged y disgwylid iddynt eu galw pan y dymunent gael eu sylw neu pan yn siarad am danynt. Tybed a gymerodd rhai personau fantais annheg o'r fraint hon i ddibrisio mewn unrhyw fodd feistr a meistres a geisiai fod yn ffryndiau ar yr un "level" a'i cyd-ddynion byddent dir-berchenog neu wasanaethyddion?

Ysgolfeistriaid y Cylch. — Cwmni rhagorol i gyd-weithio a hwynt oedd y dynion gefais pan sefydlais yn y lle. Mr. John Edward Rees, Llanarth (Barry ar ol hyn); Mr. Isaac Evans (Granellian), Mydroilyn; Mr. Howell Howells, Penlon (Treorchy yn awr); Mr. Williams, Llwyndafydd; Mr. Nicholas, Llanarth (Port Talbot yn awr); Mr. Griffith Ivor Davies, Cross Inn. Yr oedd rhywbeth nodedig yn yr oll o'r cyfeillion hyn, ac yr oeddent hefyd yn dra llwyddiannus yn yr arholiadau—tymhor y "percentages" oedd hwn—ond yn hynod foddlon i drosglwyddo pobpeth yn eu dulliau o gario pethau yn mlaen a feddylid yn gymhorth i mi oeddwn hyd yn hyn yn brin ac yn fyr o brofiad. Nid oedd mymryn o eiddigedd yng nghyfansoddiad yr un ohonynt.

Bywiog a chwareus oeddent mewn cwmni, ac yn lletygar tuhwnt. Bu Mr. Rees farw yn anterth ei nerth Trueni garw fod Granellian trwy ystâd ei iechyd frau wedi ei orfodi i roi terfyn ar ei swyddogaeth. Gobeithiaf fod ei awen, er hynny, yn fyw ac yn hoenus.

(I'w barhau.)

MARWGOFION.

EBRILL 1, yn 65 mlwydd oed, bu farw Daniel Evans, Pencarniced, plwyf Llandyssul. Crydd ydoedd yr ymadawedig wrth ei alwedigaeth, ond er ys dros ugain mlynedd bu yn hollol ddall, ac ni welid ef ond odid ar yr aelwyd ac ynghylch ei gartref. Yr oedd yn wleidyddwr gwresog, ac er na fedrai weled i ddarllen, dilynai symudiadau gwleidyddol y wlad gyda dyddordeb dwfn. Yr oedd yn wr o argyhoeddiadau cryfion ac addfed ei farn, a chiedwn ei fod yn ymdrechu bod yn ffyddlon i'r farn honno. Cafodd bob gofal a thynerwch gan ei briod a'i unig blentyn ar hyd blynyddoedd ei ddallineb. Y dydd Mawrth dilynol, claddwyd yr hyn oedd farwol ohonno ym mynwent Pantydefaid, y Parch. T. Arthur Thomas yn gwasanaethu, ac ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins.

EBRILL 2, yn 75 mlwydd oed, bu farw Rachel Jones, Glaunant, Rhydowen. Yr oedd yr ymadawedig yn perch i'r diweddar Evan Jones, Saer, Gelligron, a pherthynai iddi lawer o nodweddion da ei thad. Yr oedd yn hynod barod i wneud cymwynas ac i roddi pob help allai yn y cylch yr oedd yn troi ynddo. Gwelir ei lle yn wâg yn yr ardal, ac yn neillduol yng Nghapel Pantdefaid, oherwydd dygai fawr sel dros yr achos yno, a bu yn hynod ffyddlon hyd y diwedd. Gadawodd perch a brawd a llawer o berthynasau eraill mewn hiraeth o'i cholli. Claddwyd ym mynwent Pantdefaid

y dydd Iau dilynol, y Parch. T. Arthur Thomas yn gwasanaethu, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. E. O. Jenkins.

EBRILL 2, yn 22 mlwydd oed, bu farw David John Richards, mab henaf Mr. a Mrs. John Richards, Well Street, Llandyssul. Bu yr ymadawedig am rai blynyddau yn y fyddin, a diau i'w iechyd gael ei amharu yn ystod yr amser hwnnw, oherwydd gwan fu wedi ei ollwng o'r fyddin. Bachgen tawel, diniwed, ydoedd David John, a chwith ydoedd ei golli mor gynnar, yn arbennig felly i'w dad a'i fam, brawd a chwaer. Y dydd Mercher dilynol gosodwyd ei ran farwol ym mynwent Pantdefaid, y Parch. T. Arthur Thomas yn gwasanaethu, yn cael ei gynnorthwyo gan Ficer y plwyf

EBRILL 5, yn 78 mlwydd oed, bu arw Mr. Thomas Richards, Tanygraig, Pontsian. Meisiwn ydoedd Twmi, a dilynodd ei alwedigaeth hyd o fewn cyfnod byr i'w farwolaeth. Perchid ef yn fawr ar gyfrif ei unplygrwydd, ac ar gyfrif y gwaith gonest a gyflawnai mor ddidwrw. Gadawodd weddw, yn wael iawn ei hiechyd, tri o blant, ac amryw wyrion (cofnodir am farwolaeth un wyr uchod). Y dydd Sadwrn dilynol claddwyd y rhan farwol o honno yntau ym mynwent Pantdefaid, y Parch. T. Arthur Thomas yn gwasanaethu, ac ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins.

EBRILL 11, yn 67 mlwydd oed, bu farw Mrs. Esther Davies, priod y diweddar Mr. Owen Davies, Bwlchog, Llanfihangel - ar - Arth. Gwanaidd fu iechyd yr ymadawedig am rai blynyddau, ond cafodd bob gofal gan ei dwy ferch, y naill sydd yn byw yn y Bwlchog a'r llall yn Maesyrhedydd. Yr oedd iddi hefyd un mab, yr hwn sydd mewn ariandy yn Clydach, ger Abertawe. Claddwyd ei rhan farwol ym mynwent Eglwys Llandyssul. Pregethwyd yn y ty ddydd yr angladd gan y Parch. T. Arthur Thomas; gweddiwyd gan y Parch. J. T. Hughes, Llanfihangel, ac yn yr Eglwys gan Ficer Llandyssul.

MANION AC HANESION.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Cribyn (am 1921), 12s.

LLWYDDIANT.—Mae Mr. S. Vernon Evans, mab Mr. a Mrs. Evans, Court Ffarm, Cwrtnewydd, wedi bod am gwrs o efrydiaeth mewn amaethyddiaeth yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Ar ddiwedd y tymhor yr oedd yn myned o dan arholiad, ac enillodd y safle o fod yn ail yn mhlith eraill o'r Coleg. Drwy gyrhaedd y safle hon yr oedd yn enill ysgoloriaeth; ac annogid ef gan yr Athraw Amaethyddol i ddychwelyd i'r Coleg er parhau ei efrydiaeth yn mhellach.

CAPELYBRYN.—Prydnawn Gwener, Ebrill 7, cafodd yr eglwys hon wledd o dê. Rhoddwyd y wledd gan y Parch. J. Davies a'i teulu, Tancoed. Er yr anferir cynildeb mewn pob peth y dyddiau hyn ag y mae treuliau arianol ynglyn â hwy, ni welsom arwyddion o hyny mewn dim yn y wledd hon, eithr yr oedd amrywiaeth a chyflawnder y danteithion yn dweyd fod ein caredigion wedi anwybyddu hyny am dro. Daeth bron pawb yn yr ardal, o bob oedran, i gyfranogi o'r wledd, a bu yr ysgoldy yn llawn drwy'r prydnawn hyd yr

hwyr. Cafodd y ddwy Miss Jenkins, o Danycoed, eu cynorthwyo wrth y byrddau gan foneddigesau o'r eglwys, a theg yw dweyd i bawb amlygu parodrwydd i helpu. Yn yr hwyr cynhaliwyd cyngherdd, pryd y daeth llon'd y capel o bobl ynghyd. Llywyddwyd ar ddechreu y cyfarfod gan y Parch. J. Davies, ac wedi iddo ef ymadael cymerwyd y llywyddiaeth gan y Parch. E. Glyn Edwards (B). Arweiniwyd gan y gweinidog. Rhanwyd ar ddechreu y cyfarfod ugain o lyfrau yn wobrau i'r rhai oeddynt wedi mynychu yr Ysgol Sul heb fod yn absenol fwy na thair gwaith yn ystod y flwyddyn ddiweddaf. Rhoddwyd y llyfrau hyn gan Dr. D. J. Davies, B.A., Aberystwyth. Yn ychwanegol at adroddiadau a datganiadau, cafwyd perfformiad o'r ddrama enwog "Y Pwyllgor" Canodd y côr cymysg a chôr y merched o dan arweiniad Mr. Thomas Davies, blaenor ffyddlon y gân yn yr eglwys er's blynyddau lawer, a chôr y plant o dan arweiniad Mrs. Cledlyn Davies, yr hon sydd yn llafurus iawn gyda'r plant a'r bobl ieuainc. Ar y 31ain o Fawrth diweddaf yr oedd y Parch. J. Davies yn 86 mlwydd oed. Er mai ychydig sydd yn cael oes mor faith ag y mae ef wedi gael eisoes, eto y mae efe yn dal yn dirf ac iraidd. Deil yn gryf nid yn unig o ran ei gorff ond o ran ei gynneddfau, fel y medr gymeryd rhan gyhoeddus heb amlygu arwyddion o wanychiad mewn meddwl na chof. Hir y bydd iddo ddal felly yw ein dymuniad. Diolchwyd i roddwyr y wledd, ac i bawb a roddasant eu gwasanaeth ynglyn â hi; ac ymadawodd pawb wedi cael mwynhad mawr.

Y Graig a Gellionen. — Yn Ysgoldy y Graig, Chwef. 25ain, gyda hin ddymunol, y cynhaliwyd ein Nodachfa hir-ddisgwyliedig. Agorwyd y cyfryw, wedi ychydig eiriau i'r perwyl, gan Mrs. Daniel John, Glyncoch, i'r hon y cyflwynodd yr Hybarch Henry Morgan "Flodeuglwm" tlws, a thribanodd yntau wed'yn; a rhwng y cyfan cafodd agoriad y Nodachfa *good send off*. Cawd elw da i Drysorfa'r Organ. Bu y dosparth gwnio yn ddiwyd am tua dwy flynedd yn parotoi nwyddau, a gwnaeth pawb eu goreu. Diolchir i bawb am weinyddu yn mhob dull a modd i ddwyn y mudiad i'r fath derfyniad boddhaus. Ymddiriedwyd y gwaith o fod yn ysgrifenyddes a thrysoryddes i Mrs. Emlyn Thomas a Mrs. S. J. Edwards, a rhoisant gyfrif da o'u goruchwyliaeth.

Yn y Graig nos Sul, Mawrth 19, cawd gwledd gerddorol gan dri brawd ieuanc, Mri. Marles Williams a J. E. Hopkin, Trebanos, a Seth Owen, B.A., Ystradgynlais. Chwareuwyd yn feistrolgar ddarnau afrwydd a chlasurol o waith rhai o'brif feistri offerynol-gerddorol y byd. Rhoddwyd eglurebau gan Mr. Owen o flaen pob darn. Cant o ddiolch i'r tri brawd.

Yn Neuadd Gyhoeddus Pontardawe, nosau Iau a Sadwrn, y 6ed a'r 8ed Ebrill, i dyrfaoedd da, rhowd dau berfformiad llwyddianus gan Obeithlu'r Graig, yn cael ei gynorthwyo gan tua haner dwsin o rai mewn oed o'r chwareugerdd "Marjorie" (M. Johnston), gyda help gwerthfawr Cerddorfa Linynnol, dan ofal ac arweiniad Mr. Marles Williams. Pe enwid pawb gymerodd ran bob tro, ofnid y ceid restr fyddai yn dreth ar amynedd dyn, ond boddlonwn ar ddiolch i bawb yn gyffredinol am y dyfalbarhad a'r ffyddlondeb a welwyd gyda'r dasg o ddwyn y llyfr i ddiweddiad dymunoled.

Sefydlu Gweinidog.—Bydd yn dda gan gyfeillion ac edmygwyr y Parch. D. Cellan Evans ddeall ei fod wedi ei sefydlu yn weinidog ar yr Eglwys Undodaidd yn Northampton. Yr oedd nifer o wyr pwysig y dref, ynghyd a gweinidogion y gwahanol enwadau yno yn croesawu'r gweinidog newydd. Dymunwn ninnau iddo bob llwydd a bendith yn y cylch pwysig y mae wedi ei alw iddo.

Y PARCH. R. J. CAMPBELL—Fel hyn y mae'n ysgrifennu at y Parch. C. A. Piper, yr hwn a sefydlwyd fel gweinidog yr Eglwys Undodaidd yn Ilford : — "Pe byddech ychydig yn nes, rhoddaswn i mi fy hun y pleser o fod yn bresennol dydd Sadwrn. . . . Yr ydych yn cychwyn wedi eich cymhwyso yn dda at y gwaith i'r hwn yr ydych wedi rhoddi eich hunan, ac fe gaiff eich pobl allan yn fuan fod yn eich meddiant y tant ysprydol yn ogystal a'r nerthol deallol.

Y PRIF LYTHYRENNAU. — Mewn adolygiad dysgedig ar lyfr "Emynau a Thonau" Esgob Bangor (23, 3, 1898), gofynnir paham yr argreffir y rhagenwau personol gyda phriflythyrennau. Er engraifft :—

O Arglwydd nef, tir, mor, a'u llu,
I Ti bo mawl pob enaid cu ;
Pa fath adnabod wnawn i Ti,
A roddaist oll.

Paham y priflythyren "T" yn yr ail a'r trydydd llinell. Er bod yn gyson, dylai'r "t" yn "rhoddaist" fod yn brif lythyren. Mae'n bryd i'r beirdd, &c., ddychwelyd at ddull synwyr cyffredin o ysgrifennu !

SAINT CYNTEFIG — Genesis v. 21—24. Cawn yr ysgrifenydd yn darlunio mewn ychydig iawn o eiriau hanes bywydau pechaduriaid fuont byw yn agos i fil o flynyddau.

1. Caritor ac nid talent sydd yn cael y lle blaenaf yn y Beibl. Nid y rhai enwog o ran doniau deallol; nid y rhai adeiladodd ddinasoedd, ddyfeisiodd offer cerddorol, neu wnaeth gywreinwaith mewn pres a haiarn. Gwnai hanesydd cyffredin y rhai hynny yn ddynion amlwg.

Mae pawb yn canmol y dyn clefer.

2. "Efe a rodiodd gyda Duw." Nid llawer ddywedir ; ond y mae yna ddigon o le i'r dychymyg chwareu. Y rhodio hwn gyda Duw —hanes bywyd dyn dynol yw, gyda gofalon a serchiadau cyffredin dynol. Bywyd oedd a gafodd ei fyw ynghanol blinderon a thrafferthion a gofalon a dyledswyddau cyffredin.

3. Fe ddywed y stori iddo fyw hyn a hyn o flynyddau, hyd nes ganwyd plentyn iddo, yna dywedir iddo "rodio gyda Duw !"

DUWINYDDIAETH YN MHLITH MERCHED YR YSGOL.—Ar eu ffordd adref o'r ysgol aeth yn ddadl boeth rhwng y merched tra'r oedd yr athrawes o fewn cyraedd clust :—

Ebe'r ferch gyntaf : "Iesu Grist a Duw yr un dyn ydynt." Ebe'r ail :—"Nage, nid yr un dyn ydynt, maent yn ddau ddyn gwahanol," ac ebe un arall, "Maent yn dri dyn gwahanol, wedi eu cysylltu yn un !"

A dyma sylw un arall oedd y tu ol yn cyd-gerdded gyda'r athrawes : "Chwi welwch, Miss, maent i gyd yn myn'd i wahanol eglwysi a chapeli, ac yna maent yn cwympo maes a'u gilydd."

RHYBUDD

Liw dydd goleu, pan ddisgleiriai
Lleuad dlos,
Rhybudd plaen fel hyn a eiriai :—
"Cofia'r nos !"

C.

CWPAN EINIOES.

I bawb a ddêl i'w wledd, y Meistr ni phaid
Ag estyn cwpan llawn o felys win,
Yn gymysg efo gwaddod chwerw a blin ;
Ac yfed hwnnw oll bob dafn sy' raid.

C.

PAM YR OEDDWN ?

Pam yr oedwn nes bo'r clustiau'n fyddar,
Cyn llefaru'r gair caruaidd cu ?
I ba beth y rhown ein clod mewn llafar
Pan fo'r glust dan sel yr Angau du?

Just Published by THE LINDSEY PRESS.

The New Testament & Modern Life

By S. H. MELLONE, M.A., D.Sc.

Cr. 8vo. 280 p.p. Cloth, 6/- net.

Prof. JAMES MOFFAT, M.A., D.Litt., writing in the *British Weekly*, says:—"It is a genuine pleasure to read Dr. S. H. Mellone's new book . . . he applies critical judgment to the records, and combines with it a fine moral judgment, which enables him to present positive results. . . . I call it without hesitation a good book, not because it always convinces, but because its method is so trustworthy, and its outlook so sane."

The *Times Literary Supplement* speaks of Dr. Mellone's book as "an acute and scholarly study," and the *Glasgow Herald* describes it as "both a live and a learned book."

In this book the author's endeavour has been to indicate as concisely and as clearly as possible the ethical import of the most significant parts of the New Testament, and the directions in which the resulting principles bear upon modern life and civilisation.

The Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS, . . . LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c. . . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, Carmarthen. Telegrams—Coysh, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —

LONDON JOINT CITY AND MIDLAND BANK LIMITED

CHAIRMAN:

The Right Hon. R. McKenna

JOINT MANAGING DIRECTORS:

Frederick Hyde Edgar W. Woolley

Subscribed Capital	**£38,117,103**
Paid-up Capital	**10,860,852**
Reserve Fund	**10,860,852**
Deposits *(Dec. 31st, 1921)* ..	**375,117,092**

Llandyssul Office: 9, Lincoln Street

Manager: T. M. JONES

Over 1,600 Offices in England and Wales

Head Office:

5, Threadneedle Street, London, E.C.2